

## Rhagarweiniad

### 1. Pleidlais yr Holl Fyfyrrwyr

1.1 Gellir galw Pleidlais yr Holl Fyfyrrwyr i benderfynu unrhyw fater.

### 2. Cynnig o Ddiffyg Hyder

2.1 Mewn Ymddiriedolwr:

Yn unol â'r Cyfansoddiad (cymal 62), mae angen cworwm o 500 o Aelodau i ddilysu Pleidlais yr Holl Fyfyrrwyr i basio Cynnig o Ddiffyg Hyder mewn Ymddiriedolwr, ac mae angen mwyafrif syml i gymeradwyo'r cynnig.

2.2 Mewn Swyddog Llawn Amser neu Wirfoddol:

Er mwyn pasio Cynnig o ddiffyg hyder mewn Swyddog Llawn-amser neu Wirfoddol, mae angen cworwm o 500 o Aelodau i ddilysu Pleidlais yr Holl Fyfyrrwyr ac mae angen mwyafrif syml i gymeradwyo'r cynnig.

### 3. Polisi

3.1 Yn unol â'r Cyfansoddiad (cymal 45) mae angen cworwm o 500 o Aelodau i ddilysu Pleidlais yr Holl Fyfyrrwyr i gytuno ar bolisi a gyfeiriwyd at Bleidlais yr Holl Fyfyrrwyr gan fwrdd yr Ymddiriedolwyr, Pwyllgor Gwaith yr Undeb, Cyfarfod o'r Cynulliad, Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol neu ddeiseb ddiogel, ac mae angen mwyafrif syml i gymeradwyo'r cynnig.

### 4. Cyfrifoldebau

4.1 Y Swyddog Etholiadau, neu ei Ddirprwy, a hwythau wedi'u penodi'n unol ag is-ddeddfau'r etholiadau, fydd yn gyfrifol am weinyddu Pleidlais yr Holl Fyfyrrwyr a'i chynnal yn briodol yn unol â chyfarwyddiadau a disgrifir yn fanwl yn y Cyfansoddiad (cymal 44-47).

### 5. Cyhoeddi

5.1 Bydd y Cadeirydd yn cyhoeddi bod Pleidlais yr Holl Fyfyrrwyr wedi cael ei galw, ynghyd â manylion pam y gwnaed hynny, yng nghyfarfod nesaf y Senedd.

5.2 Trefnir Pleidlais yr Holl Fyfyrrwyr yn unol â'r amserlen ganlynol; y Dirprwy Swyddog Etholiadau sy'n gyfrifol am benderfynu'r union ddyddiadau ar gyfer hyn:

a. Cyhoeddi'r cynnig, dyddiad(au) ar gyfer Pleidlais yr Holl Fyfyrrwyr a dyddiad cyfarfod, sy'n agored i'r holl aelodau, i esbonio a thrafod y materion sydd dan sylw, a gynhelir heb fod yn hwyrach na dechrau'r pleidleisio.

b. Os yw'r mater yn un dadleuol, bydd y cyfarfod yn enwebu dau asiant a fydd yn gyfrifol am redeg yr ymgyrch "Pleidleisiwch Ie" a'r ymgyrch "Pleidleisiwch Na". Bydd y naill asiant a'r llall yn derbyn lwfans cyhoedduswydd, wedi'i dalu gan UMAber, sy'n cyfateb i'r lwfans y cytunwyd arno ar gyfer etholiadau swyddogion ymddiriedolwyr.

c. Cyhoeddi'r cynnig a'r cwestiwn sydd i'w ofyn a rhoi cyhoedduswydd pellach i ddyddiadau pleidleisio.

### 6. Pleidleisio

6.1 Bydd pob Aelod yn gymwys i bleidleisio.

6.2 Caiff manylion yr etholiadau a'r broses bleidleisio eu cyhoeddi trwy wefan UMAber, ac unrhyw le arall a ystyrir yn addas gan y Dirprwy Swyddog Etholiadau.

6.3 Fel arfer, cynhelir y bleidlais yn electronig.

6.4 Dylai'r opsiynau ganiatáu i Aelodau bleidleisio naill ai o blaid, yn erbyn neu ymatal ar bob cynnig.

## 7. Datganiad

7.1 Caiff canlyniadau Pleidlais yr Holl Fyfyrywyr eu cyhoeddi gan y Swyddog Etholiadau pan fydd y cyfrif ar gyfer pob un wedi cael ei gwblhau'n llwyddiannus.

7.2 Gosodir canlyniadau Pleidlais yr Holl Fyfyrywyr ar wefan yr Undeb o fewn un diwrnod gwaith o'r cyfrif.